**Astudiaeth Achos**
**Cyngor Tref Aberhonddu a Chyngor Sir Powys**

**Gweithgaredd y Prosiect:**
Mae Llais y Goedwig yn cefnogi Cyngor Tref Aberhonddu wrth iddynt ymgymryd â rheoli'r parc lleol 'Island Fields' yn lle Cyngor Sir Powys, ac archwilio sut y gallant weithio ochr yn ochr gyda sefydliadau a gwirfoddolwyr lleol er mwyn datblygu a defnyddio'r safle.

**Crynodeb o'r prosiect**

Mae Island Fields yn fan gwyrdd mawr, agored yng nghanol Aberhonddu, Yn 2022 roedd Cyngor Sir Powys, oedd yn rheoli'r safle, yn edrych ar y posibilrwydd o'i ddefnyddio ar gyfer datblygu a thai. Yn dilyn hyn, cafwyd ymateb gwrthwynebus gan gyngor tref Aberhonddu, a chynhaliwyd ymgynghoriad ar-lein er mwyn dod i ddeall beth oedd barn y gymuned am y cynlluniau. Yn wyneb yr ymatebion hyn, rhoddodd Cyngor Sir Powys gyfle i Gyngor Tref Aberhonddu ymgymryd â phrydles hirdymor ar y safle.

Bedair blynedd yn ddiweddarach, mae gan Gyngor Tref Aberhonddu brydles 99 mlynedd gan Gyngor Sir Powys, o 2025 ymlaen. Mae LlyG wedi bod yn cadw mewn cyswllt bob hyn a hyn gyda'r cyngor tref ers dechrau 2023, a hynny mewn cydweithrediad gyda'r swyddog partneriaeth natur lleol.

Mae trosglwyddo'r safle i Gyngor Tref Aberhonddu a'r dyfarniad grant gwirfoddoli strategol wedi digwydd yr un pryd, ac mae wedi galluogi ymgysylltu pellach gyda'r cynlluniau a chyfle i gefnogi cyflwyno syniadau a phrosesau newydd.

Mae yna gefnogaeth gref i gyngor y dref, gyda 15 aelod o Gyngor Tref Aberhonddu yn rhan o bwyllgor gwaith. Bob tro maent yn cwrdd, mae Liz Mutch (Swyddog Datblygu Llais y Goedwig) yn mynychu, ynghyd â Maria Golightly, swyddog Partneriaeth Natur Lleol ar gyfer Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog. Cynhelir cyfarfodydd er mwyn symud rheolaeth y safle yn ei flaen, a gweld sut y gallai gynnig cyfleoedd i'r gymuned leol.

Mae gwrthdaro ynghylch sut y gallai'r safle gael ei ddefnyddio orau weithiau'n brigo i'r wyneb, ac oherwydd hyn, fe wnaeth Liz annog ymgyrchoedd ymgynghori ac ymgysylltu pellach gyda'r gymuned leol (a gynhaliwyd ym mis Chwefror 2025). O'r ymgynghoriad hwnnw, cafodd gweithgareddau sy'n flaenoriaeth eu hadnabod, a fydd yn bwydo i mewn i'r cynllun rheoli sy'n datblygu ar gyfer y safle. Rhannwyd adnoddau oedd wedi'u datblygu gan Lais y Goedwig gan Liz, er enghraifft *Arolwg Iechyd y Goedwig* er mwyn eu helpu i ddeall yr hyn sydd ganddynt, ac er mwyn annog ymarfer mapio o'r rhanddeiliaid a allai fod yn gysylltiedig gyda'r safle. Maent ar hyn o bryd yn dechrau siarad am wirfoddolwyr, a sut y gall gweithio gyda gwirfoddolwyr gefnogi rhai o'r awgrymiadau gan y cyhoedd e.e. gwella llwybrau, clirio rhywogaethau ymledol, gwneud meinciau, gweithgareddau ysgol yn y goedwig, gweithgareddau llesiant.

**Beth weithiodd yn dda, beth wnaeth ddim gweithio mor dda:**

Mae Cyngor Tref Aberhonddu wedi bod yn eithaf gofalus o ymwneud gwirfoddolwyr ar y safle, er eu

bod mewn egwyddor yn frwd. Yr her yw caniatáu digon o hyblygrwydd wrth gynllunio ar gyfer unrhyw wirfoddolwyr a fydd yno yn y pen draw i deimlo bod ganddynt berchnogaeth o'r safle a'i ddatblygiad, ac i weithgarwch gwirfoddoli yn gyffredinol i beidio â theimlo'n llethol i'r cyngor.

Ar y cam cynnar hwn, mae'r cyngor wedi tueddu i wyro tuag at yr hyn ellid ei allanoli a/neu ei brynu, yn hytrach na beth ellid ei ddatblygu gydag ymwneud y gymuned. Mae'r cyngor yn parhau i fod â diddordeb mawr i glywed syniadau a phrofiad recriwtio a gweithio gyda gwirfoddolwyr ond nid oes ganddynt lawer o brofiad uniongyrchol, er bod 2 gynghorydd yn gweithio gyda gwirfoddolwyr yn eu gwaith o ddydd i ddydd.

Nid yw'r cyngor eisiau cynnwys gwirfoddolwyr ar hyn o bryd. Maent wedi cytuno, hyd nes y bydd cynllun rheoli ar gyfer y safle a bod mwy o ddealltwriaeth ynghylch eu cyfrifoldebau o safbwynt rheoli, mai ymwneud cyfyngedig yn unig fydd gan unrhyw drydydd parti.

Yr her ar hyn o bryd yw annog y cyngor i ryddhau peth o'r cyfrifoldeb, trosglwyddo ychydig o reolaeth, cynllunio a rheoli'r safle i'r gymuned sydd hefyd wedi dod ynghyd i'w achub rhag cael ei ddatblygu.

**Beth a ddysgwyd:**

Y fantais o gael Llais y Goedwig yn rhan ohono yw y gallwn ddod â'n profiad helaeth i'r bwrdd o ran rheoli mannau gwyrdd, ond hefyd wrth weithio gyda gwirfoddolwyr a rheoli disgwyliadau yn hynny o beth. Gall LlyG helpu i lenwi'r bylchau o ran eu gwybodaeth, a all fod yn achosi ychydig o bryder iddynt gan amharu ar gynnydd.

Mae Liz mewn cysylltiad gyda nifer o grwpiau a hoffai gymryd rhan fel gwirfoddolwyr pan ddaw'r amser e.e. Mind, Brownies a Guides, Cadets, Cymdeithas Rhandiroedd Lleol. Cynnal eu diddordeb a'u diweddaru ar gyfer pan y gellir hwyluso eu cynnwys yn rhan o bethau.

Yn gyffredinol, mae'r diffyg profiad o weithio gyda gwirfoddolwyr a grwpiau cymunedol wedi arwain o bosib at agwedd sy'n rhy ochelgar a phryderus, ac mae'n rhaid i ni fod yn ystyriol o hyn. Rydym yn symud ymlaen ar gyflymder y cyngor felly gallant wella eu hyder ac ennill ein hymddiriedaeth.

**Casgliad:**

Mae hyn yn bendant yn ddechrau'r daith i Gyngor Tref Aberhonddu, sydd wedi treulio 4 blynedd yn achub y safle rhag cael ei ddatblygu. Maent yn awyddus iawn i sicrhau bod y safle'n cael ei reoli'n gyfrifol a bod pob parti yn cael eu parchu ar y safle.

Mae ein camau nesaf gyda Chyngor Tref Aberhonddu yn cynnwys taith gerdded o amgylch y safle gyda Liz Mutch, Maria Golightly a thri o gynghorwyr Cyngor Tref Aberhonddu, er mwyn llunio map o'r safle a chwblhau arolwg iechyd coedwig.

Byddwn hefyd yn parhau i archwilio'r potensial ar gyfer cyllid partneriaeth natur leol y gellid ei sicrhau er mwyn hwyluso peth o'r cyfleoedd gwirfoddoli yn y dyfodol. Erbyn diwedd 2026, rydym yn rhagweld y byddwn wedi dechrau cefnogi rhoi cyfleoedd gwirfoddoli ar waith, gan ymgymryd ag ychydig o ddigwyddiadau/diwrnodau gwaith.